# Where Good Music Matters

# Taro Nodyn Cywir

**AT THE MUNI · THE COLISEUM · THE PARK & DARE**
AUTUMN **2010** HYDREF






## LIFE ENHANCING LIVE MUSIC EXPERIENCES
## PROFIADAU CERDDORIAETH FYW I GYFOETHOGI EICH BYWYD

**MANY SOLE WELSH DATES**

**NIFER O DDYDDIADAU AR GYFER CYMRU'N UNIG**

## FEATURING · GAN GYNNWYS:

LEDDRA CHAPMAN • GENTICORUM • CHERRYHOLMES
NILS LOFGREN • MARY CHAPIN CARPENTER
MONSTERS OF BRITISH ROCK • SARA WATKINS
GWENAN GIBBARD & RACHEL HAIR
KING KING FEATURING ALAN NIMMO
MADDY PRIOR AND THE CARNIVAL BAND
BROKEN PEACE/NI DDAW HEDDWCH
HIT ME! THE LIFE AND RHYMES OF IAN DURY
MAGIC OF THE BEATLES • ROCK'N'ROLL PARADISE
MAGIC OF MOTOWN

www.rct-arts.co.uk

STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

## AT THE MUNI · THE COLISEUM · THE PARK & DARE

The outstanding and acclaimed Where Good Music Matters season comprises of life enhancing live music performances in the intimate atmosphere of a variety of unique spaces, from small auditoriums, to lounge bars, to a gallery under a stunning circular church window. Forget the need for big screens, musicians in the distance, and sound echoing through vast spaces – with Where Good Music Matters you see the performance, you hear the performance, you feel the performance - you are an integral part of the performance.

'What a thrill to share the intimacy of a really good band's performance and feel as though you are especially invited'
(S Challen from Tondu)

Mae tymor anhygoel a chlodwiw Taro'r Nodyn Cywir yn cynnwys perfformiadau cerddoriaeth byw sy'n gwella bywyd gyda chyfleusterau unigryw mewn awyrgylch preifat, o neuaddau bach, i lolfeydd â bar, i galeri o dan ffenest eglwys gron aruthrol. Anghofiwch am yr angen am sgriniau mawr, cerddorion yn y pellter a sŵn yn atsian trwy leoedd mawr - gyda Tharo'r Nodyn Cywir rydych chi'n gweld y perfformiad, rydych chi'n clywed y perfformiad, rydych chi'n teimlo'r perfformiad ac rydych chi'n rhan o'r perfformiad.

## CONTENTS · CYNNWYS


| | |
|---|---|
| DETAILS OF 12 BAR BLUES CLUB, AND ONLINE SELLING | > p3 |
| DETAILS OF THE MINI MUSIC BUNDLE | > p4 |
| LEDDRA CHAPMAN | > p5 |
| GENTICORUM | > p6 |
| CHERRYHOLMES | > p7 |
| NILS LOFGREN | > p9 |
| MARY CHAPIN CARPENTER | > p10 |
| MONSTERS OF BRITISH ROCK | > p11 |
| SARA WATKINS | > p12 |
| GWENAN GIBBARD & RACHEL HAIR | > p13 |
| KING KING FEATURING ALAN NIMMO | > p14 |
| MADDY PRIOR | > p15 |
| BROKEN PEACE/NI DDAW HEDDWCH | > p16 |
| DETAILS ON MORE AMAZING EVENTS | > p18 |


### Join The Cultural Services Email List

Please email arts@rhondda-cynon-taf.gov.uk telling us you would like your email address to be added to the list.

### Rhowch eich enw ar restr e-bost y Gwasanaethau Diwylliannol

Anfonwch e-bost i arts@rhondda-cynon-taf.gov.uk gyda chais am ychwanegu'ch cyfeiriad e-bost at ein rhestr.





# 12 Bar Blues Club

RCT Cultural Services have joined forces with Blaenau Gwent venues to create a new blues membership club called the 12 Bar Blues Club.

**It works like this –**
**Join the 12 Bar Blues Club and you will receive:**

> Regular information on forthcoming events

> Free prize give-aways

> The best international Blues artists and reduced ticket prices for blues events in both RCT Theatres and Blaenau Gwent venues.

**Membership is £12.50 per year** – to join the call the Box Office on **01495 355800** or email **boxoffice@blaenau-gwent.gov.uk**

Mae Gwasanaethau Diwylliannol Rhondda Cynon Taf wedi ymuno â lleoliadau Blaenau Gwent i greu Clwb y Blŵs 12 Bar.

**Os wnewch chi ymaelodi â Chlwb y Blŵs 12 Bar, dyma beth gewch chi:**

> Gwybodaeth reolaidd ar ddigwyddiadau sydd i ddod

> Cystadlaethau am ddim

> Yr artistiaid blŵs gorau o sawl gwlad, a thocynnau am bris gostyngol yn ein canolfannau ni ac yng nghanolfannau Blaenau Gwent.

**Aelodaeth: £12.50 y flwyddyn**. Hoffech chi ddod yn aelod? Ffoniwch y Swyddfa Docynnau ar **01495 355800** neu ebostio **boxoffice@blaenau-gwent.gov.uk**

BRAND NEW SHINY
**PHONE NUMBER**

**08000 147 111**

NEWYDD SBON DANLLI
**RHIF FFÔN**

Or you can now book online at >
Neu mae croeso I chi archebu ar-lein ar
**www.rct-arts.co.uk**

The Box Office system has been developed into one system and one phone number. One number to remember! One number to book tickets for any performance at any of the venues! If one venue's box office is busy, the system will hunt other box office staff to take your call – even if they are located at another venue!

Mae system y Swyddfa Docynnau wedi newid. Nawr, mae'n un system ac un rhif ffôn sydd ar ei chyfer.Un rhif i'w gofio! Un rhif sydd ei angen arnoch chi i archebu tocynnau ar gyfer unrhyw un o'n canolfannau! Os bydd swyddfa docynnau un canolfan yn brysur, bydd y system yn dod o hyd i aelod arall o staff er mwyn i chi gael siarad gyda nhw yn lle – hyd yn oed os ydyn nhw mewn canolfan arall!

PROFIADAU CERDDORIAETH FYW I GYFOETHOGI'CH BYWYD

WHERE GOOD MUSIC MATTERS

# MINI-MUSIC BUNDLE

How does the bundle work? Buy a full price ticket(s) for Nils Lofgren at The Park & Dare on Tuesday 19 October (£28.50 or £25.00) and buy the same number of tickets for 1, 2 or all of the following 3 gigs for a discounted price:

**LEDDRA CHAPMAN** at The Muni on Friday 1 October £7.50 per ticket instead of £10.00

**KING KING** in The P&D Blues Lounge on Thursday 18 November £8.50 per ticket instead of £12.50

**SARA WATKINS** (of Nickel Creek) at The Muni on Friday 5 November £8.50 per ticket instead of £12.50

**CREATE YOUR OWN TICKET BUNDLE and save a mint on your music!**

**You can make a saving of up to £10.50 per mini-music bundle, depending on how many gigs you book for!**

The Boring but Important Stuff...!

All tickets must be paid for at the same time – as a single transaction.

The number of tickets bought for Nils Lofgren and the discounted tickets must match – eg, buy 2 tickets for Nils, means you can buy up to 2 discounted tickets for Leddra Chapman, King King and/or Sara Watkins.

Cannot be used in conjunction with any other ticket discount or concession. Not available on-line, please call 08000 147 111 to book. We reserve the right to withdraw this offer at any time, without prior notice.

TARO NODYN CYWIR

# PECYN BACH CERDD

Sut mae'r pecyn bach yn gweithio? Prynwch docyn(nau) pris llawn ar gyfer Nils Lofrgen yn Theatr y Parc a'r Dâr ar Ddydd Mawrth 19 Hydref (£28.50 neu £25,00), a chewch brynu'r un nifer o docynnau am bris disgownt ar gyfer un, dau.neu dri o'r gigiau hyn:

**LEDDRA CHAPMAN** yn y Miwni ar Ddydd Gwener 1 Hydref £7.50 am bob tocyn yn lle £10.00

**KING KING** yn Lolfa'r Blŵs, Theatr y Parc a'r Dâr, ar Ddydd Iau 18 Tachwedd £8.50 am bob tocyn yn lle £12.50

**SARA WATKINS**, Nickel Creek, yn y Miwni ar Ddydd Gwener 5 Tachwedd £8.50 am bob tocyn yn lle £12.50

**CYFLE I CHI GREU'CH PECYN TOCYNNAU'CH HUN, ac arbed ffortiwn ar eich hoff gerddoriaeth.**

**Cyfle i chi arbed hyd at £10.50 am bob pecyn bach cerdd! (Bydd yn dibynnu ar sawl gig archebwch chi.)**

Pethau Bach Pwysig!

Rhaid talu am yr holl docynnau mewn un trafodiad ar y pryd.

Rhaid prynu'r un nifer o docynnau disgownt â nifer y tocynnau ar gyfer Nils Lofgren. Er enghraifft, os prynwch ddau docyn ar gyfer Nils, cewch brynu hyd at ddau docyn disgownt ar gyfer Leddra Chapman, King King, a/neu Sara Watkins.

Nid oes hawl i ddefnyddio hyn ar y cyd ag unrhyw ddisgownt ar docyn neu ostyngiad arall. Hoffech chi wneud archeb? Ffoniwch 08000 147 111. Nid yw hyn ar gael ar-lein. Rydym yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig hwn yn ôl ar unrhyw adeg, heb rybudd ymlaen llaw.

# Leddra Chapman

> FRIDAY **1** OCTOBER
> GWENER **1** HYDREF
> 8.00PM
> **£10.00**



## Cabaret Style Seating

With soulful and honest lyrics that come straight from the heart, a crystal clear voice, highly accomplished guitar and piano playing and a batch of the most thoughtful, beautiful and catchy songs, Leddra is truly one of the most gifted young songwriters in Britain today. Having worked on her own unique sound with an impressive list of producers and songwriters she has just released her debut album 'Telling Tales' to much critical acclaim.

**'Leddra Chapman is the owner of a beautiful voice. It has a clear, pure tone, capable of delivering both dusky softness and considerable power...delivering pitch-perfect acoustic pop with strong backing from a band of double bass, guitar, drums and violin'** THE INDEPENDENT

\> Cabaret seating
\> Bar open all evening
\> No children under 14

## Seddau Dull Cabare

Er bod Leddra Chapman yn ifanc iawn o hyd, mae'i llais aeddfed, a'i chaneuon teimladwy wedi ennill cefnogaeth frwd a niferus iddi. Yn aelod o deulu cerddorol, mae Leddra yn mynd o nerth i nerth ym mhob man. Dyma gantores-gyfansoddwraig gyda'r gorau yng ngwledydd Prydain heddiw. Bu hi'n gweithio gyda rhai o'r cynhyrchwyr a'r cyfansoddwyr gorau yn y byd cerddorol i greu sain unigryw. Dyma hi'n rhyddhau'i halbwm bythgofiadwy cyntaf, 'Tellin Tales'.

\> Trefn Seddau Cabare
\> Bar ar agor gydol y noson
\> Dim plant o dan 14 yn y bar

**www.rct-arts.co.uk**
**www.leddrachapman.com**

WHERE GOOD MUSIC MATTERS **MINI-MUSIC BUNDLE** TARO NODYN CYWIR **PECYN BACH CERDD**

Part of the **Where Good Music Matters mini-music bundle** – Create your own ticket bundle and save a mint on your music. Full details of how this package works on page 4

Rhan o becyn bach cerdd **Taro'r Nodyn Cywir**. Cyfle i chi greu'ch pecyn tocynnau'ch hun, ac arbed ffortiwn ar eich hoff gerddoriaeth. Hoffech chi fanylion llawn y pecyn tocynnau hwn? Trowch i dudalen 4.

LIFE ENHANCING LIVE MUSIC EXPERIENCES

# Genticorum

> THURSDAY **7** OCTOBER > IAU **7** HYDREF > 8.00PM
**> £11.50**

### Cabaret Style Seating

This Quebecois trio played at the Muni Arts Centre in 2008 and while they were relatively unknown to most, they were a smash hit.

Since then they have become one of the most sought-after exponents of Quebecois musical culture. Firmly rooted in the soil of their native land, this energetic and original power trio also incorporate the dynamism of contemporary North American and European folk cultures into their music. They weave precise and intricate fiddle and flute work, gorgeous vocal harmonies, energetic foot percussion, and guitar and bass accompaniment into a jubilant musical feast.

- > Cabaret seating
- > Bar open all evening
- > No children under 14

### Seddau Dull Cabare

Bu'r triawd newydd hon o wlad Québec draw yng Nghanada yn llwyddiant ysgubol yn y Miwni ddwy flynedd yn ôl.

Bellach, hwy yw un o grwpiau mwyaf blaengar diwylliant cerddorol Quebec. Dyma driawd gwreiddiol ac egnïol, gyda'u gwreiddiau'n ddwfn yn niwylliant eu gwlad. Maent yn agored yr un pryd i nerth a grym diwylliannau gwerin cyfoes Gogledd America ac Ewrop. Maent yn gweu cerddoriaeth ogoneddus o seiniau cain y ffliwt a'r ffidl, harmoni cyfoethog eu lleisiau, taro rhythmig eu traed, a chyfeiliant cyhyrog y gitâr a'r bâs.

- > Trefn Seddau Cabare
- > Bar ar agor gydol y noson
- > Dim plant o dan 14 yn y bar



www.rct-arts.co.uk www.genticorum.com







# Cherryholmes

with · gyda Christopher Rees

> TUESDAY **12** OCTOBER > MAWRTH **12** HYDREF
> 8.00PM **> £14.50**



### Cabaret Style Seating

The "first family of Bluegrass" have taken the music world by storm. Already garlanded with awards from the International Bluegrass Music Association and Grammy nominations this highly talented six piece family band combine musical virtuosity with spine tingling harmonies. Their live shows are dazzling, with twin fiddles, Irish step-dancing, classic country yodelling, old-time claw-hammer banjo and even some soulful gospel singing in addition to their dynamic bluegrass.
Wonderful stuff.

### Seddau Dull Cabare

Dyma deulu brenhinol canu'r tir glas, sydd wedi cymryd byd cerddoriaeth i'w teyrnas. Chwech o aelodau teulu talentog Cherryholmes sydd wedi ffurfio'r band. Cawsant eu henwebu ar gyfer sawl Grammy, ac maent wedi ennill gwobrau gan Gymdeithas Ryngwladol Canu'r Tir Glas. Mae'u dawn offerynnol yn donig, a'u harmonïau yn wefreiddiol. Rhwng eu dawn ar y ffidil a'r banjo morthwyl crafanc, dawnsio Gwyddelig, canu gospel gwefreiddiol, iodlo canu gwlad - ac, wrth gwrs, y canu tir glas crefftus, bydd eu sioeau byw yn hudo pob cynulleidfa. Bendigedig!

CONTINUES OVERLEAF

PROFIADAU CERDDORIAETH FYW I GYFOETHOGI'CH BYWYD



# Cherryholmes

## with · gyda Christopher Rees

Special guest is Christopher Rees whose fourth album "Devil's Bridge" won widespread critical acclaim. Mojo magazine said "A spit and sawdust holler that's as close to a Southern hell-fire preacher as you can get hailing from Cardiff. Very, very good."

Yn gwmni iddynt bydd Christopher Rees, canwr yr albwm bythgofiadwy 'Devil's Bridge'. "Noson o dwrw tanllyd ac o ganu cyhyrog gyda mwy o hwyl na llond capel o bregethwyr y Diwygiad - ardderchog!" Mojo

- > Cabaret seating
- > Bar open all evening
- > No children under 14

- > Trefn Seddau Cabare
- > Bar ar agor gydol y noson
- > Dim plant o dan 14 yn y bar

Supported by the Welsh Assembly Government and the Arts Council of Wales through the Arts Outside Cardiff Scheme and an Arts Council of Wales Lottery Award

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru drwy Gynllun y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd

**www.cherryholmes.com**
**www.christopherrees.co.uk**
**www.rct-arts.co.uk**

Rhondda Cynon Taf Theatres / Asgard Co-production
Cyd-gynhyrchiad Theatrau Rhondda Cynon Taf / Asgard

# Nils Lofgren Acoustic Duo

> TUESDAY **19** OCTOBER
> MAWRTH **19** HYDREF
> 8.00PM
> **£28.50 & £25.00**



Legendary American songwriter, virtuoso guitarist and pianist, Nils Lofgren is back in the UK for a rare tour. He's famed for his appearance on Neil Young's seminal album 'After The Goldrush', as a long-time member of Bruce Springsteen's E-Street band and as a superb front-man himself, both with Grin and under his own name.

Tonight he performs an intimate acoustic set, expect Lofgren classics such as 'Take You to the Movies', 'Back it up', 'Keith Don't Go' and many others from his vast back catalogue. A superb evening in store.

- > Bar open pre-event and interval
- > No children under 14

**www.rct-arts.co.uk**
**www.nilslofgren.com**

O ddyddiau'i ieuenctid yn Chicago, bu dawn Nils Lofgren ar y gitâr a'r piano yn ddiarhebol. Dyma gyfle prin i wrandawyr yma glywed ei ganeuon unigryw. Bu Nils yn chwarae ar albwm allweddol Neil Young 'After The Goldrush', yn E-Street Band Bruce Springsteen, a chyda'i fand ei hun Grin. Bu'n llwyddiant ysgubol wrth ganu dan ei enw'i hun hefyd.

Dyma fe heno yn canu caneuon acwstig mewn awyrgylch gartrefol. Cyfle i chi glywed 'Take You To The Movies', 'Back It Up', 'Keith Don't Go', a sawl cân wych arall o'r cyfoeth o ganu sydd ganddo wrth gefn. Noson ddihafal!

- > Bar ar agor cyn yr achlysur ac yn ystod yr egwyl
- > Dim plant o dan 14 yn y bar

WHERE GOOD MUSIC MATTERS **MINI-MUSIC BUNDLE** TARO NODYN CYWIR **PECYN BACH CERDD**

Part of the **Where Good Music Matters mini-music bundle** – Create your own ticket bundle and save a mint on your music.
Full details of how this package works on page 4

Rhan o becyn bach cerdd **Taro'r Nodyn Cywir**. Cyfle i chi greu'ch pecyn tocynnau'ch hun, ac arbed ffortiwn ar eich hoff gerddoriaeth.
Hoffech chi fanylion llawn y pecyn tocynnau hwn? Trowch i dudalen 4.

LIFE ENHANCING LIVE MUSIC EXPERIENCES

**THE MUNI ARTS CENTRE**
**CANOLFAN GELF Y MIWNI**
SWYDDFA DOCYNNAU **08000 147 111** BOX OFFICE

**THE PARK & DARE THEATRE**
**THEATR Y PARC A'R DÂR**
SWYDDFA DOCYNNAU **08000 147 111** BOX OFFICE

PROFIADAU CERDDORIAETH FYW I GYFOETHOGI'CH BYWYD

# Mary Chapin Carpenter

plus · gyda Tift Merrit

> THURSDAY **28** OCTOBER > IAU **28** HYDREF > 8.00PM

> **£25.00** in advance • ymlaen llaw **£27.50** on the door • wrth y drws

By capturing in song moments from life and presenting them in a way that makes them universal, this multiple Grammy award-winning iconic American singer/songwriter has sold over 13 million records and boasts 12 top 10 singles.

A combination of country, folk, rock, and blues, Carpenter's music defies easy categorisation and she has been compared to other indefinable artists such as Rosanne Cash and Nanci Griffith.

> Bar open pre-event and interval

O'r galon mae Mary Chapin Carpenter yn canu, ac yn canu â chalon pob un sy'n ei chlywed hi. Cantores-gyfansoddwraig sydd wedi canu'i ffordd i'r 10 Uchaf ddeuddeg o weithiau, a gwerthu dros 13,000,000 o recordiau.

Mae'i llais teimladwy a'i chyfeilio crefftus yn cwmpasu naws canu gwlad, gwerin, roc, a'r blws. Mae rhai wedi'i chymharu â Rosanne Cash, ac eraill â Nanci Griffith, ond mae pawn yn gytûn fod neb yn hafal iddi.

> Bar ar agor cyn yr achlysur ac yn ystod yr egwyl

**www.rct-arts.co.uk**
**www.marychapincarpenter.com**

EXCLUSIVE WELSH GIG · CYNGERDD UNIGRYW I GYMRU ·



## THE COLISEUM THEATRE
## THEATR Y COLISEWM

SWYDDFA DOCYNNAU **08000 147 111** BOX OFFICE

# Monsters of British Rock

> THURSDAY **4** NOVEMBER > IAU **4** TACHWEDD > 8.00PM

> **£15.50** in advance • ymlaen llaw **£18.00** on the door • wrth y drws **£14.50**

Six of the UK's most highly-esteemed and experienced rock musicians have joined forces to create Monsters of British Rock! Original Whitesnake members Micky Moody and Neil Murray have teamed up with Laurie Wisefield (Wishbone Ash), Harry James (Thunder), Chris Ousey (Heartland) and Michael Bramwell (We Will Rock You) to bring you classic twin-guitar based rock as it should be played.

Playing classic rock songs that they helped create, such as Whitesnake's Here I Go Again, Fool For Your Loving, Don't Break My Heart Again, Ready An' Willing and Ain't No Love In The Heart Of The City, together with other hits from the band members' back catalogue, Monsters of British Rock are the genuine article.

This is one Monster of a rock band!

> Standing gig
> Bar open all evening
> No children under 14

**www.rct-arts.co.uk**



Mae chwech o gerddorion roc enwocaf a mwyaf profiadol y Deyrnas Gyfunol wedi dod at ei gilydd i sefydlu Monsters of British Rock! Mae aelodau gwreiddiol Whitesnake, sef Micky Moody a Neil Murray, wedi ymuno â Laurie Wisefield (Wishbone Ash), Harry James (Thunder), Chris Ousey (Heartland) a Michael Bramwell (We Will Rock You) i greu sioe roc gitâr o'r radd flaenaf!

A hwythau'n canu cyfansoddiadau eu hunain, megis Here I Go Again, Fool For Your Loving, Don't Break My Heart Again, Ready An' Willing a Ain't No Love In The Heart Of The City, yn ogystal â chlasuron wedi'u cyfansoddi gan gatalog eang gweddill yr aelodau, Monsters of British Rock ydy'r hufen ymhlith y goreuon.

Dyma ichi fand roc a hanner!

> Gig sefyll
> Bar ar ago gydol y noson
> Dim plant o dan 14

LIFE ENHANCING LIVE MUSIC EXPERIENCES

## THE MUNI ARTS CENTRE
## CANOLFAN GELF Y MIWNI

SWYDDFA DOCYNNAU **08000 147 111** BOX OFFICE

PROFIADAU CERDDORIAETH FYW I GYFOETHOGI'CH BYWYD

# Sarah Watkins (of Nickel Creek)

plus · gyda Sean Watkins

Special Guests The Carrivick Sisters

> FRIDAY **5** NOVEMBER
> GWENER **5** TACHWEDD
> 8.00PM
> **£12.50**



### Cabaret Style Seating

Best known as a founding member of the Grammy award–winning, critically acclaimed and platinum-selling band Nickel Creek, Sara Watkins, singer/songwriter and fiddle player, steps out with a confident stride releasing her debut solo album, (produced Led Zeppelin's John Paul Jones) and now performing some eagerly anticipated live gigs.

Blending country, bluegrass, and folk music in an undeniably soulful melange, she has fresh sound; her melodies are complex and addictive, with foot stomping rhythms and delicate vocals.

> Cabaret seating
> Bar open all evening
> No children under 14

**www.rct-arts.co.uk**
**www.sarawatkins.com**

### Seddau Dull Cabare

Dewch yn llu i glywed gig byw gan gantores-gyfansoddwraig Sara Watkins wrth iddi lawnsio'i gyrfa unigol. Yn dipyn o giamster ar y ffidil, fe fu Sara gyda'r band canu tir glas Nickel Creek am flynyddoedd, yn cipio gwobrau Grammy ac yn gwerthu ambell i ddisg Zeppelin. Bellach, mae Sara wedi lawnsio'i halbwm ei hun, wedi'i gynhyrchu gan John Paul Jones, fu'n chwarae'r bâs i Led Zeppelin.

Cewch glywed atseiniau o ganu gwlad, canu tir glas, a chanu gwerin mewn ffrwd o sain mor lân â nant y mynydd. Bydd ei halawon cywrain a'i llais swynol yn cydio yn eich cof - ac yn rhoi curiad yn eich traed!

> Trefn Seddau Cabare
> Bar ar agor gydol y noson
> Dim plant o dan 14 yn y bar

WHERE GOOD MUSIC MATTERS **MINI-MUSIC BUNDLE** — Part of the **Where Good Music Matters mini-music bundle** – Create your own ticket bundle and save a mint on your music.
Full details of how this package works on page 4

TARO NODYN CYWIR **PECYN BACH CERDD** — Rhan o becyn bach cerdd **Taro'r Nodyn Cywir**. Cyfle i chi greu'ch pecyn tocynnau'ch hun, ac arbed ffortiwn ar eich hoff gerddoriaeth.
Hoffech chi fanylion llawn y pecyn tocynnau hwn? Trowch i dudalen 4.

# Gwenan Gibbard & Rachel Hair

AN EVENING OF CELTIC HARP IN THE CIRCLE GALLERY
NOSON O'R DELYN GELTAIDD YN YR ORIEL GYLCH

> THURSDAY **11** NOVEMBER
> IAU **11** TACHWEDD
> 8.00PM
> **£10.00** (Concessions £6.00)



Gwenan is at the forefront of the Welsh traditional harp scene both as a consummate player and a delightful singer. Expect rhythmic and vibrant dance tunes, gypsy music, and both lively and hauntingly beautiful folk songs, the perfect showcase of Welsh traditional music at its best

With her eclectic mix of traditional and contemporary Scottish and Irish music, as well as original music, celtic harpist Rachel Hair has been described as, 'one of the most innovative young musicians to have emerged over the last few years.' (Irish Music Review).

**www.gwenangibbard.com**
**www.rachelhair.co.uk**
**www.rct-arts.co.uk**

Teyrnas Gwenan yw byd y delyn draddodiadol yng Nghymru. Rhwng swyn ei llais, a dawn ei bysedd ar y tannau, mae hi'n swyno'r miloedd. Cewch glywed tonau dawnsio cyhyrog a bywiog, canu'r Sipsiwn, a llu o ganeuon gwerin hyfryd boed yn hwyliog neu'n hiraethus.

Yn frodor o Ucheldiroedd yr Alban, mae Rachel wedi cymhathu traddodiadau telyn Iwerddon hefyd, gan ychwanegu elfen gref o'i dawn wreiddiol ei hun. Yn ôl 'Irish Music Review', mae Rachel gyda'r cerddorion ifanc mwyaf arloesol a ddaeth i'r llwyfan yn ddiweddar.

LIFE ENHANCING LIVE MUSIC EXPERIENCES

PROFIADAU CERDDORIAETH FYW I GYFOETHOGI'CH BYWYD

# King King

## featuring Alan Nimmo

> THURSDAY **18** NOVEMBER
> IAU **18** TACHWEDD
> 8.00PM
> **£12.50**

(Blues Club Members / Aleodau'r Clwb Blŵs £10.50)



### Cabaret Style Seating

"Softly softly" is not a maxim that King King are familiar with. Since surging into life last year they have barely stopped for breath, and their electrifying sound and scorching live shows have generated more of a thunderous roar than a buzz.

This is a band which knows how to make an entrance. Fronted by charismatic bluesman Alan Nimmo, their exhilarating debut at last year's Monaghan Blues Festival created such a stir that it prompted organiser Somhairle MacConghail to declare: "King King aren't just playing the festival. Word is that King King ARE the festival".

> Cabaret seating
> Bar open all evening
> No children under 14

IN THE BLUES LOUNGE • YN LOLFA'R BLWS •

### Seddau Dull Cabare

Nid tyner leisiau glywch chi mewn cyngerdd King King. Ryw flwyddyn yn ôl y daeth y bois at ei gilydd i ffurfio band. Byth oddi ar hynny, mae'u lleisiau cyhyrog a'u chwarae caled wedi rhoi'r gynulleidfa ar dân ym mhob man.

Dyma fand i hoelio'ch sylw o'r eiliad y daw i'r llwyfan. Yr artist blws cyfareddol Alan Nimmo sy'n eu harwain ers eu hymddangosiad cyntaf yng Ngŵyl Blws Muineachán y llynedd. "Nid chwarae yn yr Ŵyl mae'r bois hyn," meddai'r trefnydd, Somharile Mac Conghail, "nhw yw'r Ŵyl yn ôl pob sôn!"

> Trefn Seddau Cabare
> Bar ar agor gydol y noson
> Dim plant o dan 14 yn y bar

**www.rct-arts.co.uk**
**www.kingkingblues.com**

# Maddy Prior & The Carnival Band

**'Maddy's voice is clear as a bell. It actually sounds as if there's a celebration going on'**
THE GUARDIAN

## Carols and Capers 2010

> SATURDAY **11** DECEMBER > SADWRN **11** RHAGFYR
> 8.00PM **> £18.50**

Some forty years from her emergence on the folk circuit, Maddy is still one of the most enduring, influential and respected artists in British music. Her Christmas tours with the Carnival Band have become something of a legend, delighting audiences with their breathtaking mixture of modern and ancient seasonal songs and carols.

> Bar open pre-event and interval

Dros bedwar deng mlynedd yn ôl y daeth Maddy i sylw cefnogwyr canu gwerin gyntaf. Heddiw, mae hi'n dal ymhlith artistiaid mwyaf dylanwadol ym myd cerddoriaeth Ynys Prydain. Bob Nadolig fe fydd hi a'r Carnival Band yn mynd ar daith, yn perfformio carolau a chaneuon hen a newydd. Mae'r gynulleidfa yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn.

> Bar ar agor cyn yr achlysur ac yn ystod yr egwyl

**www.rct-arts.co.uk**
**www.maddyprior.co.uk**



LIFE ENHANCING LIVE MUSIC EXPERIENCES



**THE PARK & DARE THEATRE**
**THEATR Y PARC A'R DÂR**
SWYDDFA DOCYNNAU **08000 147 111** BOX OFFICE

Tonypandy 1910–2010 @ The Park & Dare Theatre

# Broken Peace/ Ni Ddaw Heddwch

with · gyda Martyn Joseph

> TUESDAY **2** & WEDNESDAY **3** NOVEMBER
> MAWRTH **2** A MERCHER **3** TACHWEDD > 7.30PM
> **£7.50** (Concessions/Gostyngiadau £5.50)

Special Offer - £15.00 ticket includes free copy of the Tonypandy CD/

Cynnig arbennig - mae pris tocyn £15.00 yn cynnwys copi am ddim o gryno-ddisg Tonypandy

This period in time within the Rhondda Valleys may have culminated in the riotous events in 1910, but this unique live music event is more than just remembering a single day...

It's an insight into the thoughts, emotions, fears and strengths of the people of the Valleys, via songs written especially for this music event by internationally acclaimed award-winning Welsh singer-songwriter Martyn Joseph.

One of acoustic music's most arresting artists, Martyn will be joined by students from Tonypandy Community College and Ysgol Gyfun Y Cymer, who will be contributing compositions and musical accompaniment guided by MD Andrew Griffiths.

As well as performing the debut of his new music, Martyn will completely enthral you with a collection of his popular songs from his outstanding 30 year career.

Bydd y digwyddiad cerddorol hwn yn gwneud llawer mwy na chofio un diwrnod yn unig, dydd y twrw a'r trais sy'n dal yn fyw yng nghof pobl Cymoedd Rhondda ...

Dyma weledigaeth o feddyliau a theimladau, ofnau a chryfderau pobl y Cymoedd, drwy gyfrwng y caneuon bythgofiadwy a gyfansoddodd y canwr-gyfansoddwr byd-enwog Martyn Joseph i'r achlysur.

Martyn yw un o artistiaid mwyaf gafaelgar cerddoriaeth acwstig yng Nghymru. Yn gwmni iddo bydd disgyblion o Goleg Cymunedol Tonypandy ac Ysgol Gyfun Cymer Rhondda. Byddant yn cyflwyno darnau, ac yn cyfeilio hefyd, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cerdd Andrew Griffiths.

Yn ogystal â pherfformio'i gerddoriaeth newydd yn gyhoeddus am y tro cyntaf, bydd Andrew yn eich swyno'n lân â'i ganeuon poblogaidd o yrfa neilltuol 30 mlynedd.

Broken Peace/Ni Ddaw Heddwch is an RCT Cultural Services and RCT Music Service Co-production: An AOC production

Mae Ni Ddaw Heddwch/Broken Peace in gydgynhyrchiad gan Wasanaethau Diwylliannol Rhondda Cynon Taf a Gwasanaeth Cerdd Rhondda Cynon Taf: Cynhyrchiad y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd

## > WHO IS THE AMAZING MARTYN JOSEPH?

## > FELLY PWY YW'R ANHYGOEL MARTYN JOSEPH?



Shades of Springsteen, Knopfler and Dave Matthews there may be - but he stands in his own right, built on a reputation for giving what thousands have described as the best live music experience of their lives.

Martyn`s 30 year career has embraced some notable achievements including 5 Top 50 UK chart positions, with such songs as Dolphins Make Me Cry, Working Mother and Let's Talk About it in the Morning, and appearances and tours with, amongst others, Suzanne Vega, Marc Cohn, Joan Armatrading, Clannad, Chris de Burgh, Art Garfunkel, Jools Holland and Celine Dion. He has won fans everywhere with his uncanny fusion of material -feisty, pull no punches big issue numbers alongside stripped bare love songs

Mae rhai wedi clywed adleisiau o Springsteen, Knopfler, a Dave Matthews. Digon teg - ond un sy'n canu â'i lais ei hun yw Martyn, wedi ennill clod a bri drwy roi profiad cerddorol gorau'u bywydau i filoedd ar filoedd o gefnogwyr.

Dros y chwarter canrif ddiwethaf yma mae Martyn wedi cyfansoddi a chanu caneuon anfarwol, megis 'Dolphins Make Me Cry', 'Working Mother', a 'Let's Talk About It In The Morning'. Cyrhaeddodd siartiau 50 uchaf y Deyrnas Unedig. Bu'n canu neu'n teithio gyda Suzanne Vega, Marc Cohn, Joan Armatrading, Clannad, Chris de Burgh, Art Garfunkel, Jools Holland, Céline Dion, a llu o fawrion eraill. Bydd Martyn yn canu caneuon serch tyner, baledi teimladwy, a chaneuon protest dicllon, yn ôl yr angen. Yn swyno'r dorf weithiau, droeon eraill bydd ef yn codi dychryn.

**'One of the most charismatic and electrifying performers in Britain today ... tough and passionate'**
TOM ROBINSON · BBC 6 MUSIC

**'One of acoustic music's most original voices, and most forward looking of his generation of singer-songwriters'** Q MAGAZINE

**One of the most compelling live performers you are ever likely to encounter delivers this one-off, totally engaging music event.**

**Dyma un o'r perfformwyr byw mwyaf gafaelgar glywch chi mewn oes. Dewch i'w weld yn cyflwyno digwyddiad cerddorol heb ei debyg**

**www.tonypandy2010.com**

CEFNOGI CREADIGRWYDD CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU THE ARTS COUNCIL OF WALES SUPPORTING CREATIVITY

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government





**THE PARK & DARE THEATRE**
**THEATR Y PARC A'R DÂR**
SWYDDFA DOCYNNAU **08000 147 111** BOX OFFICE

## OTHER BRILLIANT EVENTS COMING UP SOON

# Hit Me! The Life and Rhymes of Ian Dury

@ The Muni

by/gan **Jeff Merrifield**

> WEDNESDAY **6** OCTOBER > MERCHER **6** HYDREF > 7.30PM

**> £11.50**



This warts-and-all portrait of the Blockheads' lead singer tours direct from its second West End season, exploring the highs and lows of Ian Dury's extraordinary career and inspirational life story. Featuring many of his best songs performed live, including Hit Me with Your Rhythm Stick and Reasons to Be Cheerful.

> Recommended age 16+

Sioe rymus am fywyd Ian Drury, y cerddor a drechodd afiechyd ac anabledd i arwain y Blockheads i frig y siartiau. Ddeng mlynedd ar ôl marw Ian, dyma'r sioe yn mentro allan o'i hail dymor yn y West End. Cyfle i chi glywed 'Hit Me With Your Rhythm Stick', 'Reasons To Be Cheerful', a rhai o ganeuon grymus eraill Ian.

> Ar gyfer pobl 16 oed +

**www.hitmetour.com**

# The Magic of The Beatles @ The Muni




> SATURDAY **9** OCTOBER > SADWRN **9** HYDREF > 7.30PM

**> £15.50** (Concessions £14.50)

Join the magical, musical, 50th anniversary tour as the world celebrates 50 golden years of The Beatles. Come together for a musical tour that takes audiences from the group's Mop Top roots to the psychadelia of Sgt Pepper and beyond ... from Love Me Do to Let It Be.

Ydy, mae'n 50 o flynyddoedd ers i'r Bêr Bedwarawd gychwyn ar eu hynt i hudo'r byd mawr crwn yn gyfan. Dewch gyda nhw ar eu taith hudolus i ben draw'r dychymyg! Dewch ar daith hud, o ganu trwm seleri Lerpwl i fyd hud a lledrith Sergeant Pepper ... o 'Love Me Do' i 'Let It Be'.

**www.easytheatres.com**




# Rock'n'Roll Paradise @ The Coliseum

> FRIDAY **26** NOVEMBER > GWENER **26** TACHWEDD

> 7.30PM **> £15.00**

Elvis Presley, Buddy Holly, Jerry Lee Lewis, Roy Orbison, Eddie Cochran and the Big Bopper are all stunningly brought back to life in this rock'n'roller-coaster of a show.

Sbloetsh o sioe sy'n dod ag Elvis Presley, Buddy Holly, Jerry Lee Lewis, Roy Orbison, Eddie Cochran, a'r Big Bopper, yn fyw eto o flaen eich llygaid.

# Magic of Motown @ The Park & Dare

**Direct from the USA ... The Reach Out Tour**

**Yn syth o Unol Daleithiau America Y Daith Ymestyn**

> THURSDAY **9** DECEMBER > IAU **9** RHAGFYR > 7.30PM **> £15.00**

Live on stage it's the music of the Temptations, Diana Ross & The Supremes, Four Tops, Stevie Wonder, Jackson 5, Marvin Gaye, Lionel Richie, Martha Reeves & scores more.

Yn fyw ar y llwyfan dyma gerddoriaeth y Temptations, Diana Ross a'r Supremes, Four Tops, Stevie Wonder, Jackson 5, Marvin Gaye, Lionel Richie, Martha Reeves, a dwsinau yn rhagor.




**www.easytheatres.com**

For tickets, further information, details on access, parking and directions to the venues, please call **08000 147 111 www.rct-arts.co.uk**

I gael rhagor o fanylion, archebu tocynnau, manylion ynghylch mynediad, parcio a chyfarwyddiadau ar sut I gyrraedd, ffoniwch **08000 147 111 www.rct-arts.co.uk**

## THE MUNI ARTS CENTRE > CANOLFAN GELFYDDYDAU'R MIWNI

Gelliwastad Road · Pontypridd · CF37 2DP

## THE COLISEUM THEATRE > THEATR Y COLISËWM

Mount Pleasant Street · Aberdare · CF44 8NG

## THE PARK & DARE THEATRE > THEATR Y PARC A'R DÂR

Station Road · Treorci · CF42 6NL

This brochure is available in a large print text version, please call Jo on 01685 888684 for details.
Mae modd ichi gael copi print bras o'r llyfryn yma. I gael rhagor o fanylion, ffoniwch Jo - 01685 888684.

Join the new Cultural Services email list – email your interest to **arts@rhondda-cynon-taff.gov.uk**

Brought to you by Rhondda Cynon Taf County Borough Council Cultural Services
Diwylliannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n trefnu'r rhaglen yma ar eich cyfer.

This brochure is correct at time of going to print. RCT Cultural Services reserve the right to alter any details without notice, due to any unforeseen circumstances.
Roedd y manylion ma'n gywir adeg cyflwyno'r rhaglen i'r argraffwyr. Mewn amgylchiadau arbennig, mae hawl gyda Isadran Gwasanaethau Diwylliannol Rhondda Cynon Taf i newid manylion heb roi rhybudd.

**www.rct-arts.co.uk**

**AT THE MUNI · THE COLISEUM · THE PARK & DARE**

LIFE ENHANCING LIVE MUSIC EXPERIENCES

PROFIADAU CERDDORIAETH FYW I GYFOETHOGI'CH BYWYD